# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 7

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

## PENNOD 2

AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

*Rheoliadau ailstrwythuro*

### 132 Rheoliadau ailstrwythuro sy'n darparu bod rhan o brif ardal i ddod yn rhan o brif ardal arall sy'n bodoli eisoes

(1) Rhaid i reoliadau ailstrwythuro sy'n cynnwys darpariaeth o dan adran 131(a)—

- (a) pennu, drwy gyfeirio at bob rhan o'r ardal sy'n cael ei diddymu ac sy'n cael ei throsglwyddo i brif ardal sy'n bodoli eisoes, ardal newydd y brif ardal honno,
- (b) darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r cyngor sydd o dan ystyriaeth i brif gyngor arall,
- (c) darparu ar gyfer dirwyn y cyngor sydd o dan ystyriaeth i ben a'i ddiddymu, a
- (d) darparu bod y system bleidleisio (gweler adran 134(4)) sy'n gymwys mewn perthynas â rhan o ardal y cyngor sydd o dan ystyriaeth a drosglwyddir i brif ardal arall ("prif ardal A") i fod, yn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr ar ôl y dyddiad trosglwyddo, y system bleidleisio sy'n gymwys yng ngweddill prif ardal A.

(2) Caiff rheoliadau ailstrwythuro, at ddibenion darparu bod rhan o ardal y cyngor sydd o dan ystyriaeth i ddod yn rhan o brif ardal arall, wneud darpariaeth ynglŷn ag—

- (a) neilltuo cynghorwyr y cyngor sydd o dan ystyriaeth i brif gyngor arall;
- (b) ethol cynghorwyr i gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro a chyfnodau eu swyddi;

(c) y system bleidleisio sydd i fod yn gymwys, mewn perthynas â rhan o ardal y cyngor sydd o dan ystyriaeth a drosglwyddir i brif ardal arall, mewn etholiad i lenwi sedd sy'n digwydd dod yn wag a gynhelir ar ôl y dyddiad trosglwyddo a chyn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor ar ôl y dyddiad trosglwyddo;

(d) ethol cynghorwyr i gynghorau cymuned yn ardal cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro a chyfnodau eu swyddi;

(e) y trefniadau gweithrediaeth mewn cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro;

(f) ffurf y weithrediaeth a weithredir gan gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro;

(g) ardal maer etholedig ar gyfer cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro, cyfnod ei swydd a'i ethol;

(h) y trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro, gan gynnwys darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;

(i) newid enw cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro;

(j) pa un a yw prif ardal cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro yn sir neu'n fwrdeistref sirol.